

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth

Mai 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd Cymru: **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddDCC](https://twitter.com/SeneddDCC)**

© **Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth

Mai 2020



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 15 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mick Antoniw AS
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Suzy Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Carwyn Jones AS
Llafur Cymru



Dai Lloyd AS
Plaid Cymru

Cynnwys

1. Cefndir.....	5
Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU 2017-2019.....	5
Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU 2019-2021.....	6
Datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.....	7
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.....	8
2. Trafodaeth y Pwyllgor.....	10
Y dull gweithredu a'r defnydd o bwerau dirprwyedig yn y Bil.....	10
Meysydd lle mae anghytuno â Llywodraeth y DU	12
Cymal 44 - Hyd y ddarpariaeth mewn perthynas â Chymru	16
Ein barn ni	17

1. Cefndir

Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU 2017-2019

1. Ar 12 Medi 2018, cyflwynodd Llywodraeth flaenorol y DU Fil Amaethyddiaeth 2017-19¹ ('Bil 2017-19').
2. Nod Bil 2017-19 oedd darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Roedd Atodlen 3 yn benodol i Gymru ac yn cynnwys pwerau eang i Weinidogion Cymru barhau i wneud taliadau i ffermwyr a rheolwyr tir ar ôl Brexit; gwneud newidiadau i gynlluniau presennol; cefnu'n raddol ar y cynlluniau PAC dros gyfnod o saith mlynedd, a gweithredu cynlluniau newydd. Roedd Atodlen 3 hefyd yn cynnwys pwerau ynghylch casglu data, ymyrryd yn y farchnad a safonau marchnata.
3. Roedd Bil 2017-19 hefyd yn cynnwys darpariaethau a oedd yn gymwys ledled y DU gan gynnwys darpariaethau yn ymwneud â chydymffurfio â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth ac ailddosbarthu'r ardoll cig coch.
4. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ym mis Hydref 2018,² a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ym mis Mawrth 2019,³ mewn perthynas â Bil 2017-19. Fe wnaethom ni lunio adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ym mis Ionawr 2019⁴ ac adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ym mis Mehefin 2019.⁵ Ymatebodd Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog), i'r ddau adroddiad ar 25 Gorffennaf 2019.⁶

¹ [Bil Amaethyddiaeth 2017-19 \(HC Bill 266\)](#)

² Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Amaethyddiaeth](#), Hydref 2018

³ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\) y Bil Amaethyddiaeth](#), Mawrth 2019

⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth](#), Ionawr 2019

⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol \(Memorandwm Rhif 2\) Llywodraeth Cymru](#), Ionawr 2019

⁶ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, [Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth](#), 25 Gorffennaf 2019

5. Syrthiodd Bil 2017-2019 adeg diddymu Senedd y DU ym mis Hydref 2019.

Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU 2019-2021

6. Cafodd Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU 2019-2021⁷ (y Bil) ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin a chael ei ddarllenid cyntaf ar 16 Ionawr 2020. Mae'n cael ei noddi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mewn sawl ffordd, mae'r Bil yn debyg i Fil 2017-19.

7. Mae gwahaniaethau rhwng gwledydd y DU yn y graddau y mae'r Bil yn darparu ar gyfer gwro oddi wrth system gymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

8. Ar gyfer Lloegr, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i ddod â Thaliadau Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin i ben yn raddol cyn eu terfynu, er mwyn gallu symud i gynlluniau newydd. Ei nod yw pennu fframwaith ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol yn y dyfodol lle bydd ffermwyr yn cael eu talu i gynhyrchu 'nwyddau cyhoeddus' fel gwelliannau amgylcheddol neu welliannau i les anifeiliaid.

9. Ar gyfer Cymru, mae Atodlen 5 i'r Bil yn darparu ar gyfer parhad y Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr ar ôl 2020 gyda phwerau i 'symleiddio a gwella' Taliadau Uniongyrchol. Mae'r rhain yn bwerau trosiannol (gyda chymal machlud ar 31 Rhagfyr 2024) cyn cyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru), a ddisgwylir yn y Chweched Senedd. Mae disgwyl i'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) gyflwyno cynlluniau newydd i reoli tir, gan drosglwyddo o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

10. Yn ogystal â thaliadau amaethyddol, mae Atodlen 5 i'r Bil hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol, casglu a rhannu data, safonau marchnata a dosbarthu carcassau, a diogelu data.

11. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys i Gymru ac i fannau eraill. Mae'r darpariaethau'n gymwys fel a ganlyn: diogelwch bwyd, i'r DU; gwrteithwyr ac adnabod ac olrhain anifeiliaid, i'r DU; tenantiaethau amaethyddol, i Gymru a Lloegr; cynhyrchion organig, i'r DU; yr ardoll cig coch, i Brydain Fawr, a chydymffurfiaeth â Sefydliad Masnach y Byd, i'r DU.

12. Ar gyfer Gogledd Iwerddon, mae Atodlen 6 o'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer parhad y Taliadau Uniongyrchol. Mae'n rhoi hyblygrwydd i Weithrediaeth yn y dyfodol ddatblygu polisi amaethyddol yng Ngogledd Iwerddon.

⁷ [Bil Amaethyddiaeth 2019-2021 \(HC Bill 7\)](#)

13. Nid oes Atodlen sy'n gymwys yn benodol i'r Alban. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno'r Bil Amaethyddiaeth (Cyfraith yr UE a Ddargedwir a Data) (Yr Alban).⁸

Datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

14. Ar 16 Ionawr 2020, dywedodd y Gweinidog fel a ganlyn mewn datganiad ysgrifenedig:

"Y bwriad yw mai pwerau dros dro fydd y rheini a fydd yn cael eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru, a hynny tan inni gyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) er mwyn cynllunio system ar gyfer Cymru a fydd yn gweithio dros amaethyddiaeth Cymru, dros ddiwydiannau gwledig a'n cymunedau. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru i'w gweld mewn Atodlen ar wahân.

Mae'r Bil a gyflwynwyd ar 16 Ionawr yn rhoi Pwerau i Weinidogion Cymru wneud barhau i dalu Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr ar ôl 2020 ac yn rhoi sefydlogrwydd y mae dirfawr ei angen ar ein ffermwyr yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd. Mae ynddo hefyd bwerau eraill penodol, gan gynnwys pwerau sy'n bwysig er mwyn sicrhau bod marchnad fewnol y DU yn gweithio'n effeithiol.

O gofio bod cryn amser wedi mynd heibio ers i'r Bil gael ei gyflwyno gyntaf ym mis Medi 2018, rwyf wedi ystyried cwmpas yr atodlen ar gyfer Cymru, gan gyfeirio at yr adroddiadau defnyddiol a ddarparwyd gan y Senedd yn ystod y broses graffu. Rwyf wedi dod i'r casgliad nad yw bellach yn briodol cymryd pwerau a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru redeg neu newid i gynlluniau newydd. Fy mwriad bellach yw darparu ar gyfer hynny mewn Bil Amaethyddiaeth (Cymru). Rwy'n bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn tua diwedd 2020 a fydd yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer dyfodol ffermio yng Nghymru ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

Yn gyffredinol, mae cyflwyno'r Bil Amaethyddiaeth yn gam pwysig er mwyn rhoi sefydlogrwydd wrth inni newid i system newydd o roi cymorth i ffermwyr. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â

⁸ [Y Bil Amaethyddiaeth \(Cyfraith yr UE a Ddargedwir a Data\) \(Yr Alban\)](#)

materion datganoledig a byddaf yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.”⁹

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

- 15.** Ar 12 Chwefror 2020, gosododd Llywodraeth Cymru Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd¹⁰ mewn perthynas â'r Bil presennol.
- 16.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig lunio adroddiad ar y Memorandwm erbyn 24 Ebrill 2020.¹¹ Yn ddiweddarach, adolygodd y Pwyllgor Busnes yr amserlen a phennodd ddyddiad newydd ar gyfer yr adroddiad, sef 14 Mai 2020.¹²
- 17.** Mae paragraffau 10 i 83 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil sydd angen cydsyniad.
- 18.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn egluro pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil:

“Mae'n parhau'n fwriad gan y llywodraeth hon i gyhoeddi Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn a fydd yn adeiladu ar y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ac yn gosod y sylfeini ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) i'w gyflwyno yn nhymor y Cynulliad nesaf. Mae manylion y cynllun newydd yn dibynnu ar ganlyniad penderfyniadau polisi a gweithredol na ellir eu gwneud nes bod dadansoddiad o ganlyniadau'r Papurau Gwyrdd a Gwyn wedi'i gwblhau.

Bydd gwneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil Amaethyddiaeth y DU yn golygu y bydd modd parhau i ddarparu cymorthdaliadau amaethyddol presennol y tu hwnt i 2020, a sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU

⁹ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Bil Amaethyddiaeth y DU](#), 16 Ionawr 2020

¹⁰ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Amaethyddiaeth](#), Chwefror 2020

¹¹ Y Pwyllgor Busnes, [Yr amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth 2020](#), Chwefror 2020

¹² Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth](#), Ebrill 2020

ymadael â'r UE. Mae'r pwerau a gymerir i Weinidogion Cymru o dan Atodlen 5 (darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru) i'r Bil hwn yn gyfyngedig o ran amser ac wedi'u bwriadu i fod yn fesur darfodol i roi sefydlogrwydd mawr ei angen i'r sector amaethyddol yn y cyfnod hwn o ansicrwydd."¹³

19. Nodir hefyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fod "Llywodraeth Cymru ar y cyfan yn cefnogi'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio".¹⁴ Wrth wneud hynny, mae'n nodi'r meysydd lle mae anghytuno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (er enghraifft, cymalau 40 i 42), yn ogystal â rhai pryderon ynghylch darpariaethau penodol yn y Bil (cymal 32, cymal 34 ac Atodlen 3, a chymal 36).¹⁵

20. Mae'r darpariaethau a ganlyn yn gymalau newydd sydd angen cydsyniad: cymal 17 (diogelwch bwyd); cymal 31 (gwrteithwyr), cymal 32 (adnabod ac olrhain anifeiliaid), cymal 34 ac Atodlen 3 (tenantiaethau amaethyddol), cymal 36 (cynhyrchion organig) a chymal 37 (cynhyrchion organig: atodol).

21. Yn ogystal, mae cymal 27 (Ymrwymadau delio teg i brynwyr busnes sy'n prynu cynhyrchion amaethyddol), er nad yw'n gymal newydd, wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil fel un sydd angen cydsyniad ond na chafodd ei gynnwys yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2017-2019.

22. Daw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r casgliad a ganlyn:

"Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r Bil hwn ar gyfer y DU fel cyfrwng i alluogi Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu cymorth ariannol i ffermwyr yng Nghymru ar ôl 2020, ac i sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yng Nghymru ac ar draws y DU yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bydd rhai pwerau â chyfyngiad amser y mae'r Bil hwn yn darparu ar eu cyfer yn cael eu defnyddio hyd nes y caiff Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ei gyflwyno yn y Cynulliad."¹⁶

¹³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraffau 85-86

¹⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 87

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraffau 87-88

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 90

2. Trafodaeth y Pwyllgor

23. Cawsom dystiolaeth gan y Gweinidog yn ein cyfarfod ar 16 Mawrth 2020.¹⁷

Y dull gweithredu a'r defnydd o bwerau dirprwyedig yn y Bil

24. Roedd ein hadroddiadau ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol i Fil 2017-19 yn mynegi pryder ynghylch y dull deddfwriaethol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru.

25. Wrth egluro'r dull gweithredu ar gyfer y Bil a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2020, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“There’s been quite a lot of time that has passed since the original UK agricultural Bill was published back in (...) the autumn of 2018. As you say, we’ve (...) listened to your views. We’ve got more certainty about our own proposals in relation to future agricultural policy. I’ve removed the broad ‘new financial assistance powers’ from what was Part 1 of the Wales Schedule. That would have allowed Welsh Ministers to operate new financial assistance schemes. Again, that will now be provided as part of the Welsh Agricultural Bill.”¹⁸

26. Roedd ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar gyfer Bil 2017-19 hefyd yn mynegi pryder bod Senedd y DU yn dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru sy'n caniatáu iddynt weithredu mewn meysydd datganoledig, er nad yw Senedd y DU wedi bod yn rhan o'r gwaith o graffu ar bolisi amaeth yng Nghymru am genhedlaeth bron. Wrth inni drafod y pwynt hwn gyda'r Gweinidog a gofyn pam mae'r dull hwn sydd fwyaf priodol, dywedodd wrthym:

“It’s exceptionally uncertain times for the agricultural sector, so I thought the UK Bill—it’s a really important vehicle to be able to provide farmers with some very much needed stability, I think. Part of this Bill is our ability to pay our farmers. So, it’s really important that we have that effective operation, also, of the internal market in the UK following our

¹⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020

¹⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [96]

departure from the EU. But as I've said all along, they're only transitional powers."¹⁹

27. Yn ogystal, amlygodd ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf bryderon gyda'r pwerau dirprwyedig eu hunain. Gwnaethom argymhell y dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth fanwl am y pwerau a geisir²⁰ ac mewn ymateb, dywedodd y byddai'n gosod Datganiad Esboniadol pan fyddai Bil 2017-19 yn symud i'r Cyfnod Adrodd.²¹ Oherwydd bod Bil 2017-19 wedi syrthio o ganlyniad i etholiad cyffredinol y DU, ni fu hyn yn bosibl.

28. Fe wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog am y pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil ac yn benodol a allai amlinellu'r ddarpariaeth i'w gwneud mewn rheoliadau a phryd y byddai rheoliadau o'r fath yn cael eu gwneud. Ei hateb oedd:

"[two main areas...were] the continuation of financial support for our farmers and the effective operation of the internal market once we leave the EU.

Subject to getting the sufficient funding for our farmers (...) I intend to make a provision under paragraph 3 in Schedule 5 to extend the basic payment scheme to 2020-21. I thought it was really important to make that statement very early for our farmers. But, as I say, it does depend on getting the funding from the UK Government. So, that's an example."²²

29. Ychwanegodd:

"Again, I've worked very closely with the UK Government to ensure, where possible, the powers are subject to affirmative resolution procedure. Some of the provision is very narrow in scope. (...) There is one around agricultural tenancy disputes, for instance. So, I do consider that it's appropriate for the negative resolution procedure. But I do think, on the whole, this Bill contains namely affirmative procedures for

¹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [109]

²⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth](#), Ionawr 2019, argymhelliaid 6

²¹ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, [Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth](#), 25 Gorffennaf 2019

²² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [111-112]

the high proportion of the powers. So, obviously, they'll be fully scrutinised.”²³

Meysydd lle mae anghytuno â Llywodraeth y DU

30. Fel y nodwyd ym mharagraff 19 uchod, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at rai meysydd lle mae anghytuno â Llywodraeth y DU.

31. Nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru y bydd angen cydsyniad y Senedd ar gymalau 27, 40, 41, 42, 46, a 47 i 54. O ganlyniad, fe wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog a oedd hi wedi trafod yr anghytuno hwnnw â Llywodraeth y DU, a beth oedd canlyniad unrhyw drafodaethau o'r fath. Ei hateb oedd:

“I've made very clear my disagreements with the UK Government's assessment of the provisions. I've got correspondence with the previous Secretary of State and with the current Secretary of State. So, discussions are still ongoing. I do expect some movement, and I'm waiting to hear back from the Secretary of State.”²⁴

32. Mae cymalau 40 i 42 o'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen cydsyniad oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag amaethyddiaeth ac yn ymwneud â gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn ddomestig.²⁵ Yn ôl paragraff 87 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

“Mae anghytundeb o hyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch a yw cymal Sefydliad Masnach y Byd wedi'i gadw'n gyfan gwbl. Fodd bynnag, daethpwyd i gytundeb dwyochrog i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn cyflwyno rheoliadau o dan y pŵer hwn. Darparwyd esboniad o delerau'r cytundeb fel rhan o'r Memorandwm Cydsyniad

²³Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [114]

²⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [103]

²⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 56

Deddfwriaethol Atodol (Mawrth 2019) ar y Bil Amaethyddiaeth
blaenorol (a gyflwynwyd ym mis Medi 2018).²⁶

33. Amlygodd ein hadroddiadau ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol i Fil 2017-19 ein hamheuron ynghylch defnyddio cytundeb dwyochrog (a gaiff eu crynhoi ym mharagraffau 31-35 o'n hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol).²⁷ Gwnaethom hefyd godi'r mater hwn mewn gohebiaeth â'r Prif Weinidog, gan ofyn am wybodaeth am rôl cytundebau rhynglywodraethol yr ymrwymwyd iddynt gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses o lunio deddfwriaeth y DU sy'n gysylltiedig â Brexit.²⁸

34. Wrth gael ei holi ar y Bil, dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cael sicrwydd digonol yn ysgrifenedig y bydd Llywodraeth bresennol y DU yn cadw at y cytundeb a wnaed mewn perthynas â Bil 2017-19.^{29, 30}

35. Rydym hefyd yn nodi y gofynnwyd i swyddog o Lywodraeth Cymru mewn cyfarfod Pwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar 13 Chwefror 2020 a oedd Llywodraeth Cymru eisiau i'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd. Ateb y swyddog i hyn oedd:

“Yes, we would love a consent provision, but in the context of the last Bill we came to a bilateral agreement between the UK Government—the Department for Environment, Food and Rural Affairs—and the Welsh Government on how the provisions would be operated in practice. The Minister has confirmed to us that that agreement will be carried over with this Bill. We look forward to him making that statement again during this stage of the Bill or at a later stage in the House, about how we would work together on that, about the advice and about, were there to be disagreement, our opposition being formally presented to the House of Commons to be part of your

²⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 87

²⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol \(Memorandwm Rhif 2\) Llywodraeth Cymru](#), Ionawr 2019

²⁸ [Llythyr gan y Cadeirydd at Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog](#), 23 Ionawr 2020; [Llythyr oddi wrth Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog, at y Cadeirydd](#), 12 Chwefror 2020.

²⁹ Defra, Llywodraeth Cymru, [Papur polisi Cytundeb Dwyochrog Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil Amaethyddiaeth](#), 21 Mawrth 2019

³⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [104-105]

decision-making process. We have agreed a way of working to ensure that that voice is heard effectively.”³¹

36. Mewn trafodion pwyllgor dilynol dywedodd Gweinidog y DU fel a ganlyn:

“I am happy to look at whether we should restate that commitment, and I undertake to do so.”³²

37. Hefyd, yn ôl y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

“Mae pryderon heb eu datrys o ran y darpariaethau yn y Bil ar gyfer adnabod ac olrhain anifeiliaid (cymal 32), tenantiaethau amaethyddol (cymal 34 ac Atodlen 3), a rheoleiddio cynnyrch organig (cymal 36). Bydd gwaith i ddatrys y pryderon hyn sydd heb eu datrys yn parhau yn ystod taith seneddol y Bil a chaiff Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ei gyflwyno ar yr adeg briodol, os bydd angen.”³³

38. Codwyd y pryderon hyn gyda’r Gweinidog. Ei hateb oedd:

“... in relation to the agricultural tenancies and the concerns that we’ve had, (...) we’ve now had some assurance around that. We’ve done the policy diligence and we’ve had a write around, and we’re confident that that’s now sorted. In relation to (...) organic products ...

—and the identification and traceability of animals. At the moment, there’s no requirement for the Secretary of State to seek our consent. I don’t agree with that. I don’t think anybody here would agree with it. We don’t think it’s acceptable. So, again, officials are working with the UK Government and the other devolved administrations to try and progress an amendment to that. There were also a number of technical amendments, so those discussions are ongoing.”³⁴

39. Dywedodd swyddog a ddaeth i’r Pwyllgor gyda’r Gweinidog:

“... the Minister’s written quite clearly to the Secretary of State on two occasions now, making it absolutely clear that those provisions are

³¹ Pwyllgor Bil Cyhoeddus Amaethyddiaeth Tŷr Cyffredin, 13 Chwefror 2020, col 94, C145

³² Pwyllgor Bil Cyhoeddus Amaethyddiaeth Tŷr Cyffredin, 5 Mawrth 2020, col 350

³³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 88

³⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [121-123]

essential. We've had some fairly positive conversations at official level, and we're hopeful to make some progress on that in the near future.”³⁵

40. Dywedodd y Gweinidog fod y tri chymal y cyfeiriwyd atynt yn llinellau coch.³⁶ Fodd bynnag, eglurodd y Gweinidog wedi hynny fod y llinellau coch yn ymwneud â chymalau 32, 36 a 37,³⁷ yn unig, lle mae 'cynnydd da yn cael ei wneud'. O ran tenantiaethau amaethyddol (cymal 34 ac Atodlen 3), dywedodd nad oedd y materion perthnasol bellach yn llinell goch a hefyd:

“Yr ymateb cywir mewn perthynas â mecanwaith datrys anghydfod ar gyfer tenantiaid yw, gan fod y pwerau cymorth ariannol newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru yn y Bil wedi cael eu dileu, y bydd Bil Amaethyddiaeth Cymru sydd i'w gyflwyno yn y Senedd yn darparu cyfrwng deddfwriaethol i sicrhau mynediad ar gynlluniau newydd ar gyfer ffermwyr tenant yng Nghymru.”³⁸

41. O ran y llinellau coch, gofynnwyd a oedd hyn yn golygu, os na ellir datrys y rheini'n foddhaol, y byddent i bob pwrpas yn golygu na fyddai Llywodraeth Cymru o blaid rhoi cydsyniad deddfwriaethol. Ateb y Gweinidog oedd:

“Yes, and I've made that very clear to the Secretary of State.”³⁹

42. Yn fwy cyffredinol, pan ofynnwyd i'r Gweinidog am ddylanwadu ar welliannau i'r Bil yn Senedd y DU, dywedodd:

“... we've worked very closely at official level and ministerial level. I think they'll reflect the previous discussions we've had in this committee, and they are really the product of the close working between the Welsh Government and the UK Government.”⁴⁰

³⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [124]

³⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [126]

³⁷ Mae cymal 37 yn ymwneud â Chymal 36 o ran cynhyrchion organig ac yn gwneud darpariaeth atodol

³⁸ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Amaethyddiaeth: Sesiwn dystiolaeth](#), 28 Ebrill 2020

³⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [143]

⁴⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [130]

43. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod yn disgwyl i welliannau gael eu gwneud yng Nghyfnod Adrodd y Bil a'i bod, o ganlyniad, yn bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol arall maes o law.⁴¹

Cymal 44 – Hyd y ddarpariaeth mewn perthynas â Chymru

44. Argymhellodd y Pwyllgor, mewn perthynas â Bil 2017-19, y dylid cynnwys darpariaeth machlud i'r perwyl na fyddai Atodlen 3 (Atodlen 5 bellach) yn gymwys mwyach ar ôl y Pumed Cynulliad.⁴²

45. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod cymal machlud wedi ei gynnwys yn y Bil ar gais Llywodraeth Cymru.⁴³ Yn ôl y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

“Mae cymal 44 yn sicrhau bod y darpariaethau canlynol yn dod i ben ddiwedd 2024; adran 43 ac Atodlen 5, adran 49(b) ac, yn Atodlen 7, Rhan 2, adran 52(1)(g), ac yn adran 53(3), paragraff (b) ac, i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 7, paragraff (c). Gwneir darpariaeth hefyd i arbed y rheoliadau a ddisgrifir yn is-gymalau (3) i (6). Mae'r cymal yn caniatáu hefyd i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed mewn perthynas â'r adran hon.

Ystyrir bod y darpariaethau a fydd yn dod i ben o dan y ddarpariaeth hon yn faterion datganoledig (am y rhesymau a nodir yn y memorandwm hwn). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r materion datganoledig hynny.”⁴⁴

46. Er bod cymal 44 yn darparu ar gyfer terfynu nifer o ddarpariaethau'r Bil lle mae angen cydsyniad, mae yna nifer o gymalau eraill a fydd yn parhau i fod yn gymwys y tu hwnt i 2024. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, cymal 31 (gwртеithwyr), cymal 33 (yr ardoll cig coch), cymal 34 (sy'n cyflwyno Atodlen 3), Atodlen 3 (sy'n diwygio Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995), a chymalau 36 a 37 (cynhyrchion organig). O'r

⁴¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [134]

⁴² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth**, Ionawr 2019, argymhelliad 3

⁴³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [98]

⁴⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraffau 57-58

herwydd, nid yw'r cymal machlud yn gymwys i holl ddarpariaethau'r Bil lle mae angen cydsyniad.

47. Pan ofynnwyd iddi pam y cafodd cymal machlud ei gynnwys yn y Bil hwn ac nid ym Mil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU,⁴⁵ esboniodd y Gweinidog mai'r rheswm am hynny oedd:

“I suppose (...) we felt that we were so much more further forward. We thought that hopefully, that would remove the doubt that we would be having that Bill by the end of 2024.”⁴⁶

48. Fe wnaethom ni ofyn am ragor o wybodaeth am oblygiadau cymal 44 ar gyfer deddfu yn y dyfodol, ac yn benodol pam y dewiswyd diwedd 2024 fel yr amser priodol i'r pwerau hyn ddod i ben. Meddai'r Gweinidog wrthym:

“I mentioned before that I think we're far more advanced regarding the agricultural Bill (...) I have committed to publishing a White Paper by the end of this year. As I say, the end of 2024 was chosen to dispel any doubt of the temporary nature of the powers in the Wales schedule taken from this UK Bill, but it does obviously allow that adequate time for the development of our own Welsh Bill.”⁴⁷

49. Holwyd y Gweinidog ymhellach, a chan gydnabod y byddai llywodraeth newydd, fe wnaethom ni ofyn a oedd unrhyw fwriad i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth yn gynnar yn y Chweched Senedd. Cydnabu'r Gweinidog y byddai llywodraeth newydd, gan ychwanegu mai'r bwriad ar hyn o bryd oedd cyflwyno Bil yn y flwyddyn gyntaf, felly 2021.⁴⁸

Ein barn ni

50. Mae'r Bil yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth yng nghyd-destun ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mewn adroddiad diweddar argymhellodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol fod “Llywodraeth Cymru... yn ymrwymo i hysbysu'r Cynulliad pan fydd deddfwriaeth yn gysylltiedig â fframwaith polisi cyffredin y DU gyfan, p'un a yw'r ddeddfwriaeth honno'n cael ei hystyried

⁴⁵ [Bil Pysgodfeydd 2019-21 \[HL 71\]](#)

⁴⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [100]

⁴⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [116]

⁴⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion [137]

gan y Cynulliad ynteu Senedd y DU”.⁴⁹ Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr ymateb hwn “ar y sail bod y cyfeiriad at ‘fframwaith polisi cyffredin y DU gyfan’ yn cyfeirio at y Rhaglen Fframweithiau Cyffredin”.⁵⁰

51. Nodwn nad yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn dweud a yw'r Bil yn fframwaith cyffredin neu'n rhan o un ac felly rydym yn parhau i fod yn aneglur ar y pwynt allweddol hwn.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom yn egluro i ba raddau y mae'r Bil yn ymwneud ag unrhyw fframwaith cyffredin ac, os yw'n briodol, dylid nodi'n glir y darpariaethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r fframwaith hwnnw.

52. Rydym yn falch bod y pwerau i ganiatáu i Weinidogion Cymru weithredu cynlluniau newydd neu drosglwyddo i gynlluniau newydd yn cael eu dileu o'r Bil, a bod bwriad i gynnwys pwerau o'r fath mewn Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn y dyfodol.

53. Serch hynny, rydym yn parhau i fod yn siomedig bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar Lywodraeth y DU i ddeddfu mor eang ar bolisi amaethyddol mewn meysydd datganoledig, fel y nodir yn yr adrannau ‘Ein barn ni’ o'n hadroddiadau ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2017-2019.

54. Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar gyfer Bil 2017-2019, fe wnaethom argymhell y dylai'r Gweinidog osod dogfen atodol yn rhoi gwybodaeth benodol mewn perthynas â'r pwerau dirprwyedig yn y Bil. Er nad oedd hyn yn bosibl oherwydd bod Bil 2017-2019 wedi syrthio, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi achub ar y cyfle i ddarparu'r wybodaeth hon yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n cyd-fynd â'r Bil presennol. Er bod Atodiad 1 i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am y pwerau i wneud rheoliadau, nid yw'n egluro pam y cymerwyd y pwerau na'r cyfiawnhad dros y weithdrefn a ddewiswyd ym mhob achos.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth, naill ai mewn dogfen atodol neu mewn unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol, yn cyfiawnhau pam ei bod yn briodol cymryd pob un o'r pwerau i lunio rheoliadau

⁴⁹ Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, [Fframweithiau polisi cyffredin: gwaith craffu gan y Cynulliad](#), Rhagfyr 2019, argymhelliad 1.

⁵⁰ [Llythyr oddi wrth Jeremy Miles, AS, y Cwnsler Cyffredinol, at David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol](#), 23 Ionawr 2020

ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, a'r weithdrefn a ddewiswyd ar gyfer pob pŵer i wneud rheoliadau.

55. Nodwn y meysydd anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 27, 40, 41, 42, 46, a 47 i 54. Rydym hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod â phryderon am gymalau 32, 36 a 37 yn y Bil.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am feysydd sy'n peri pryder a lle mae anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystod hynt y Bil trwy Senedd y DU.

56. Roedd ein hadroddiadau ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2017-2019 yn manylu ar ein pryderon am y defnydd o'r cytundeb dwyochrog a oedd yn gysylltiedig â'r hyn sydd bellach yn gymalau 40 i 42 yn y Bil presennol.

57. Mae ein pryderon yn parhau. Yn benodol, mae'n anodd craffu'n llawn ar effaith cymalau 40 i 42 o'r Bil heb i'r cytundeb dwyochrog gael ei ddarparu ochr yn ochr â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Nodwn fod sicrwydd wedi ei roi y bydd y cytundeb a wnaed mewn perthynas â Bil 2017-19 yn cael ei gadw gan Lywodraeth bresennol y DU; fodd bynnag, mae angen o hyd am ddarparu'r ddogfen yn ffurfiol er mwyn craffu arni ochr yn ochr â'r Bil.

58. Er ein bod yn cydnabod mai rhwng llywodraethau y mae cytundebau o'r fath, mae ymrwymo iddynt fel ffordd o ddatrys materion o fewn Bil y DU lle mae angen cydsyniad y Senedd ac yna peidio â sicrhau bod y cytundeb hwnnw ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol, yn lleihau gallu'r Senedd a'i phwyllgorau i graffu'n llawn ar oblygiadau'r Bil hwnnw gan y DU. Rydym wedi codi'r mater sut y gallai'r Senedd fod â mwy o ran wrth graffu ar gytundebau rhynglywodraethol gyda Phrif Weinidog Cymru ac rydym yn croesawu ei ymrwymiad i ystyried y mater hwn ymhellach.

59. Yn y cyfamser, rydym yn codi'r mater hwn, a'n pryderon, fel ffordd o'u tynnu at sylw'r Senedd.

60. Rydym yn croesawu'r ffaith bod cymal machlud wedi'i gynnwys yn y Bil, sy'n adlewyrchu egwyddor argymhelliad 3 ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar gyfer Bil 2017-2019. O ran y dyddiad dod i ben ar ddiwedd 2024, rydym yn fodlon â'r dyddiad hwn, gan ei fod yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i lywodraeth newydd a etholir yn y Chweched Senedd gyflwyno ei Bil Amaethyddiaeth ei hun.